Cenn@d

RHAGFYR 20 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 147

Gweddïo dros heddwch y Nadolig hwn – neges ar y cyd gan arweinwyr Cristnogol Cymru

Mae arweinwyr Cristnogol, yn cynrychioli eglwysi a chapeli ar draws Cymru, yn ymuno i wahodd pobl i weddïo dros heddwch y Nadolig hwn.

Mae Archesgob Anglicanaidd Cymru, Andrew John, Archesgob Catholig Caerdydd ac Esgob Mynyw, Mark O'Toole, a Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Simon Walkling, yn cyhoeddi neges ar y cyd sy'n cydnabod y tensiynau a'r trychinebau yn y byd ac yn gwahodd pobl i'r eglwys i fyfyrio a gweddïo dros heddwch.

Mae'r newyddion wedi bod yn llawn o'r trychineb ofnadwy sy'n datblygu yn Gaza ar ôl y cyrch terfysgol arswydus ar Israel. Lladdwyd miloedd o blant mewn rhyfel nad oedd o'u dewis. Mae'n sefyllfa wahanol iawn i'r hysbysebion Nadolig yn ein gwlad ni, a'r pwysau sydd arnom i fod yn llawen. Gellir deall pam y mae arweinwyr yr eglwys yn Jerwsalem wedi gwahodd y Cristnogion yno i hepgor unrhyw weithgareddau Nadoligaidd diangen, a sefyll yn gadarn gyda'r rhai sy'n wynebu cystudd. Mae'n ymgais i sefyll o blaid y rhai sy'n parhau i ddioddef, yn union fel y gwnaeth Iesu trwy gael ei eni yn faban ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Ganwyd Iesu mewn gwlad a oedd wedi ei meddiannu gan y Rhufeiniaid. Ni chafodd ei eni gartref oherwydd bod cyfrifiad yn cael ei gynnal. Roedd tensiynau teuluol am fod Mair yn feichiog a rhoddwyd Iesu i orwedd mewn preseb am fod y llety yn llawn. Lladdodd Herod y bechgyn ym Methlehem i gael gwared ar y bygythiad i'w rym. Mae'r pethau hyn i gyd yn rhan o'r Nadolig, ynghyd â'n llawenydd am gariad Duw a'r traddodiadau sy'n ein helpu i ddathlu.

Y Nadolig hwn, efallai y byddwn yn ymwybodol o densiynau mewn teuluoedd, a'r anawsterau o gael dau ben llinyn ynghyd. Eleni rydyn ni'n cofio'r rhyfeloedd yn y wlad lle ganwyd Iesu, yn Wcráin ac mewn rhannau eraill o'r byd. Rydyn ni'n cofio hefyd ein bod eleni wedi dathlu canmlwyddiant Apêl Heddwch Menywod Cymru, i gofio am y ddeiseb a gyflwynwyd ganddynt i America ynghylch ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd i hyrwyddo 'Cyfraith nid Rhyfel'. Llofnodwyd y neges gan tua 60% o fenywod Cymru, ar ôl teithio o gartref i gartref ac o aelwyd i aelwyd, a dangos beth mae pobl gyffredin yn gallu ei gyflawni trwy gydweithio â'i gilydd.

Mae angen heddwch yn ein byd. Hwyrach ein bod am ddianc rhag tensiwn ein teuluoedd. Efallai y carem gael pum munud o lonydd i ni'n hunain wrth baratoi at y Nadolig. Beth am ymweld ag eglwys i gael lle i dawelu a myfyrio, a rhoi amser i weddïo dros heddwch y Nadolig hwn? Rydyn ni'n gweddïo am lawenydd a gobaith i ni i gyd.

Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, Simon Walkling



Archesgob Cymru ac Esgob Bangor, Andrew John

Archesgob Caerdydd ac Esgob Mynyw, Mark O'Toole

Croesair
Tudalen 3

Tlodi Dillad a Dillad Tlodi
Tudalen 6

Oedfa Cenn@d
Tudalen 8

Gweddi ar gyfer Nadolig 2023

Oddi wrth Cynnal, Y Gwasanaeth Cwnsela ar Gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd

Ein Tad,

Rydyn ni'n byw mewn oes o newid - newid cymdeithasol, newid gwleidyddol, newid hinsawdd, ac mae'n teimlo fel petai'r newidiadau'n digwydd yn fwy cyson, yn gyflymach ac yn fwy eithafol o hyd - y byd yn troi'n gynt nag erioed. Mae'n ymddangos hefyd, weithiau, fod y rhai hynny sy'n abl i reoli'r newidiadau hyn er gwell, er ein budd ni i gyd, yn methu yn eu gorchwyl, dro ar ôl tro. A phan fydd ffydd mewn arweinwyr yn cael ei danseilio mae'r teimlad o fod ar goll, yn ddi-gyfeiriad, yn anniogel, yn cynyddu.

Mae datblygiadau technolegol yn codi cwestiynau cymhleth ac yn gallu codi ofn ar yr un pryd. Pa ddelwedd sy'n real, a pha ddelwedd sy'n ffug? Beth grëwyd gan ddychymyg dynol a beth grëwyd gan ddeallusrwydd artiffisial? Rydyn ni'n byw mewn gobaith fod y dechnoleg ddiweddaraf yn cael ei defnyddio er lles, er budd, er daioni yn hytrach nag er drygioni a thwyll.

Weithiau, mae angen newid, wrth gwrs. Byd diflas iawn fyddai'r un lle mae pethau'n aros yn eu hunfan o hyd. Diolch fod yna rai sy'n gallu dyfeisio, sy'n gallu gwneud defnydd o dechnoleg er gwell a llywio pethe i gyfeiriad positif.

Helpa ni ddysgu i ymateb i sefyllfaoedd newydd - i addasu, i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd, i ddysgu sgiliau, i fanteisio ar brofiadau, i aros yn llawn cywreinrwydd - i droi cefn ar ddilyn hen arferion a phatrymau niweidiol 'mond achos eu bod yn gyfforddus, gyfarwydd.

Ond, hefyd, dysga ni i ddarganfod, i ddewis ac i ddal gafael ar yr hyn sy'n dda, sy'n greiddiol, "craig safadwy mewn tymhestloedd"- yr hyn sy'n ddigyfnewid, yn werthfawr ers cenedlaethau.

Ar ddiwedd un fl wyddyn, ac ar ddechrau blwyddyn newydd, helpa ni i adael i hen batrymau niweidiol fynd yn angof, i dorri'n rhydd o ddibyniaeth afi ach, a rho i ni'r nerth a'r doethineb i dderbyn sialensiau a phrofi adau newydd a gwneud y mwyaf o bob cyfl e a ddaw.

cynnal

Adferiad

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â: wynfordellisowen@adferiad.org | Rhif ffôn: 07796464045
www.adferiad.org/services/cynnal

CROESAIR NADOLIG



Beth yw testun ein llawenydd? Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf, yn eu trefn, yn datgelu'r ateb (3 gair). Daw'r adnodau o'r BCN, oni nodir yn wahanol, a'r emynau o *Caneuon Ffydd*.

Ar draws

7. ------ dy droed pan fyddi'n mynd i dŷ Dduw. (*Pregethwr 5*) (6)
8. Simeon -- ----'r broffwydes: dau oedd yn y deml pan gyflwynwyd y baban Iesu. (2,4)
9. Peth da yw halen, os nad yw'n colli ei ----, yn ôl Luc 14. (4)
10. - -------- ddydd ein Duw,
    Oleuni pur y nef. (*Emyn 821*) (1,7)
11. 'I'r dyn y mae'r brenin yn dymuno'i anrhydeddu, dylid dod â gwisg frenhinol a wisgir gan y brenin, a cheffyl y marchoga'r brenin arno, un y mae ------- y brenin ar ei dalcen. (*Esther 6*) (7)
12. Priododd y ddau gyda merched - ----; Orpa oedd enw'r naill a Ruth oedd enw'r llall. (*Ruth 1*) (1,4)
15. Aeth â Jehoiachin i Fabilon, a hefyd dwyn yn ---- -
    Jerwsalem i Fabilon, ei fam a'i wragedd a'i weinyddwyr a phendefigion y wlad. (*II Brenhinoedd 24*) (4,1)
17. Seiniwyd yr utgyrn a bloeddiodd yr Israeliaid nes - ------
    Jericho syrthio. (1,6)
20. Adenydd colomen pe cawn,
    Ehedwn a -------- ymhell. (*Emyn 749*) (8)
22. Mae'r llyfr hwn yn dod rhwng Ail Lyfr y Cronicl a Llyfr Nehemeia. (4)
23. Fel babanod newydd -- ----, blysiwch am laeth ysbrydol pur. (*I Pedr 2*) (2,4)
24. Dyma gyfrif - ----- gorfod a bennodd y Brenin Solomon er mwyn adeiladu tŷ'r Arglwydd a'i dŷ ei hun. (*I Brenhinoedd 9*) (1,5)

I lawr

1. ---- -- y croesbren acw
    gyfiawnder mawr y ne'. (*Emyn 504*) (4,2)
2. Mam Ioan Fedyddiwr (8)
3. Gŵyl y Geni (7)
4. Anfonodd ei weision - ---'- gwahoddedigion i'r neithior, ond nid oeddent am ddod. (*Mathew 22*) (1,3'1)
5. Enciliai ef i'r mynydd
    - --- ar ei Dad. (*Emyn 721*) (1,3)
6. Fy ----- - lŷn wrthyt: dy ddeheulaw a'm cynnal. (*Salm 63:8 BWM*) (5,1)
13. Esther, y ferch a fabwysiadwyd gan -------- (*Esther 2*) (8)
14. Metha nef a daear
    gynnwys ein Duw;
    Ciliant hwy a darfod
    pan fydd -- -- ---. (*Emyn 466*) (2,2,3)
16. ---, --- a myrr (3,3)
18. Unwaith pan oedd y dyrfa'n gwasgu ato ac yn gwrando ar --- ---, ac ef ei hun yn sefyll ar lan Llyn Genesaret, gwelodd ddau gwch yn sefyll wrth y lan. (*Luc 5*) (3,3)
19. 'Ti yw Pedr , ac ar y ----- hon yr adeiladaf fy eglwys.' (Mathew 16) (5)
21. Pob un felly sy'n gwrando ar y geiriau hyn o'r eiddof ac -- -- gwneud, fe'i cyffelybir i ddyn call, a adeiladodd ei dŷ ar y graig. (*Mathew 7*) (2,2)

Diolch i Siân Lewis, Llanilar, am baratoi'r Croesair ar ein cyfer eleni eto.
Argraffwch y dudalen ac wedi cwblhau'r croesair anfonwch eich ymgais atom, i: Croesair Cenn@d, Ael-y-bryn, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SH, ac fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £20 i'r ateb cywir cyntaf o'r het ar 9 Ionawr ar ei ffordd atoch. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad!

Ceisio ac achub yn India ac yn yr Efengyl

Llun: UTTARAKHAND STATE DEPARTMENT OF INFORMATION AND PUBLIC RELATIONS VIA AP

Torrodd newyddion hyfryd ddydd Mawrth, 28 Tachwedd, sef rhyddhau 41 o weithwyr oedd wedi cael eu caethiwo am 17 diwrnod mewn rhan o dwnnel oedd wedi dymchwel yn yr Himalayas. Roedd y dynion yn gweithio yn y twnnel, sydd yn rhan o gynllun mentrus y prif weinidog Narendra Modi i greu rhwydwaith o ffyrdd 890 km o hyd fydd yn cysylltu pedair cyrchfan bererindod ar gost o $1.5 biliwn.

Roedd y gwasanaethau brys wedi llwyddo i gynnal y gweithwyr â bwyd, dŵr, golau, ocsigen a moddion trwy beipen oedd wedi ei chysylltu â hwy.

Y bwriad gwreiddiol oedd drilio gyda pheiriannau mawr i dorri trwy 60 metr o rwbel y cwymp, oedd yn cynnwys craig, concrit, metel a phridd. Yn anffodus, roedd y peiriannau'n wynebu trafferthion rhwystredig dro ar ôl tro. Yn y diwedd gwthiwyd peipen ddur lathen o led i'r rwbel, a bu tîm o 'gloddwyr llygod mawr' (rat miners) yn gweithio â'u dwylo i ddrilio a thyrchu'r rwbel o'r ffordd yn y beipen fach. Bu'r cloddwyr arbennig yma'n gweithio am ryw 24 awr cyn cyrraedd at y gweithwyr.

Roedd dathlu brwd wrth i'r gweithwyr ddod allan o'r biben gul ar gludwelyau i'r twnnel mawr. Roedd pawb mewn iechyd da, a chafodd y gweithwyr eu hanfon i'w cartrefi am seibiant.

Mae'n hyfryd clywed newyddion da am unwaith ar y cyfryngau. Ac wrth nesáu at y Nadolig, mae'r eitem yma'n ein hatgoffa o'r angylion yn cyhoeddi newyddion da o lawenydd mawr yng ngeni'r Ceidwad, ac Iesu ei hunan yn dweud mai ei fwriad wrth ddod i'r byd oedd ceisio ac achub pechaduriaid colledig.

Y broblem gyntaf oedd bod rhan o'r twnnel wedi dymchwel, gan ddal y gweithwyr mewn lle cyfyng ar wahân i bawb arall, heb ffordd i ddod allan. Mae hyn yn ddarlun o gwymp y ddynoliaeth gydag Adda ac Efa. Wrth iddyn nhw bechu yn erbyn Duw, cafodd y ddynoliaeth gyfan ei dal mewn lle cyfyng, wedi ei datgysylltu oddi wrth ei Chreawdwr.

Serch hynny, cadwyd cysylltiad â'r dynion trwy biben fach i fwydo hanfodion bywyd ac iechyd iddynt. Ac er ein torri bant o berthynas glòs a chariadlon â Duw, mae'n dal i'n cynnal a'n cadw yn ei ras cyffredinol.

Yna bu'r ymdrech i ddrilio at y dynion gyda pheiriannau mawr pwerus, ond roedd hyn yn fethiant rhwystredig. Dyma ddarlun o ymdrechion dynoliaeth i gyrraedd at Dduw trwy eu daioni a'u cyfiawnder eu hunain. Mae'n methu bob tro.

O'r diwedd gwthiwyd piben eithaf cul a symudwyd rwbel o'r beipen gan y 'cloddwyr llygod mawr'. Mae'r biben yn gwneud i ni feddwl am yr Arglwydd Iesu, yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion. Er yn gyfyng o ran y ffaith mai Fe yw'r unig ffordd at Dduw, mae'n ddigon i bob un ddaw ato. Mae Ef wedi sicrhau ffordd rhwng Duw a dynion trwy ei fywyd glân a'i aberth iawnol ar y groes. Yr Un sydd yn clirio rwbel pechod yn ein bywydau ni yw'r Ysbryd Glân, wrth iddo ddod â neges yr Efengyl i'n calonnau a'n harwain i edifarhau am ein pechod a glynu wrth Iesu Grist.

Wrth feddwl am y newyddion da o India, diolch am y newyddion da ddaeth i'n byd yn Iesu Grist, sydd i bobl o bob gwlad a llwyth ac iaith a chenedl.

John Treharne

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Neges i Gydlynwyr Diogelu yn yr eglwys leol

Os ydych newydd ymgymryd â rôl ddiogelu yn eich eglwys leol, wedi gwneud hyn ers tro, neu'n ystyried y rôl, mae'r dudalen newydd hon ar wefan y panel ar eich cyfer chi: **https://panel.cymru/cy/cydlynydd-diogelu-lleol**

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y rôl a dolenni ac adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y daflen newydd hon: **Cydlynydd diogelu ydw i ... beth nesaf?** i'ch helpu i ddeall y rôl a'ch cyfrifoldebau diogelu.

Mae yna sesiynau hyfforddiant newydd ar gyfer cydlynwyr diogelu ar y gweill yn 2024. Bydd y sesiwn cyntaf ar 15/2/24, gyda mwy o ddyddiadau i ddilyn: **https://panel.cymru/cy/hyfforddiant**

Yma hefyd fe gewch chi wybodaeth a dolenni i archebu hyfforddiant diogelu lefel 2, sy'n orfodol ar gyfer gweinidogion bob pedair blynedd, a hyfforddiant diogelu lefel 1 ar gyfer gwirfoddolwyr.

Cofiwch fod swyddogion y panel ar gael i'ch helpu gyda phob agwedd ar ddiogelu grwpiau bregus: post@panel.cymru

‘Wedi ei rwymo ...’

Ydi popeth ar gyfer y Nadolig wedi ei rwymo’n daclus ganddoch chi? Anrhegion – dyna sy ar fy meddwl! Ydych chi wedi eu lapio i gyd erbyn hyn?

Wrth feddwl am y geiriau ‘wedi ei rwymo’ mewn perthynas â’r Nadolig, neidiodd fy meddwl i’r geiriau a welwn yn Luc 2:12: ‘wedi ei rwymo mewn dillad baban’.

Beth yn union yw ‘dillad baban’ neu ‘gadachau’? Y gair yn Saesneg yw ‘swaddle’, ac mae’n perthyn i’r gair ‘swathe’, sy’n golygu gosod rhwymyn (to bandage), rhwymo, clymu. O feddwl am y baban Iesu, glynu wrth ddefod gyffredin ei dydd a’i hoes wnaeth Mair. Eto, anodd meddwl i Waredwr y byd a’r hil ddynol gael ei rwymo a’i glymu adeg ei eni.

Dri deg a thair o flynyddoedd yn ddiweddarach, ac yntau wedi’i ddryllio a’i groeshoelio, fe’i rhwymwyd mewn amdo o gadachau, yn llwythog â naws perlysiau. Yn ei eni a’i farwolaeth cafodd ei rwymo mewn llathenni o gotwm wrth i hanes ei genhadaeth symud o gadachau i’w amdo, o groth morwyn i fedd gŵr cyfoethog, o fywyd i farwolaeth ac i fywyd tragwyddol!

Os cafodd yr Iesu ei rwymo yn ei enedigaeth a’i farwolaeth, beth a rwymwyd ynddo ef ei hun? Beth welwn ni wrth i ni ddadrwymo ystyr ei genhadaeth a chyflwyniad ei neges? Beth a rwymwyd gyda Christ?

Pan ddadlapiwn Newyddion Da’r baban Iesu, gwelwn faddeuant. Onid byd mewn angen am faddeuant rydym yn byw ynddo heddiw? Dros y blynyddoedd cefais y fraint o rannu’r efengyl â llawer o bob llwyth, iaith a chenedl. Gwrthododd rhai gredu bod Duw i’w gael, ei fod yn eu caru, y bu farw drostynt gan atgyfodi drachefn. Daeth baban Bethlehem i ddwyn ein pechodau, i faddau i ni a’n hadfer yn ôl i berthynas â’r hwn sy’n rhoi mynediad i ni i fywyd tragwyddol (Effesiaid 1:7).

Rhywbeth arall sydd wedi’i rwymo a’i lapio gyda baban Bethlehem yw gobaith. Mae i ni obaith sy’n derfynol a thragwyddol. Golyga hyn fod gennym sylfaen sy’n ffyddiog a hyderus, hyd yn oed mewn amser o ddigalondid a siom (Hebreaid 6:19).

Gyda gobaith daw heddwch. Yn nhymor y Nadolig cawn ein hatgoffa mai’r Meseia yw ein ‘Tywysog Tangnefedd’. Mae ei heddwch yn barhaol ac ar gael bob eiliad o’r dydd i’r rhai sy’n ei garu.

Llun: unsplash.com

Ac yna, cawn lawenydd. Dyna’r teitl a roes yr angylion i’n Gwaredwr, ‘newyddion da o lawenydd mawr’ (Luc 2:10).

Pan dorrwyd y newydd am farwolaeth sydyn yr actiwr a’r comediwr Robin Williams, meddwl wnaeth llawer – sut gallai un oedd mor llawn o lawenydd fod mor drist? Bu’n dioddef yn affwysol o iselder ysbryd. Yn un o’i ffilmiau dywedodd: ‘Rwy’n ceisio gwneud synnwyr o bethau. Dyna pam rwy’n credu mewn ffawd.’

Nid dibynnu ar lwc, tynged, na ffawd wna Cristnogion; mae llwyth o ras gennym! Fe’n cymodwyd â Duw drwy Iesu Grist gan roi i ni faddeuant llawn, gobaith rhyfeddol, a heddwch parhaol sydd uwchlaw pob deall, a’r llawenydd hwnnw na roes y byd i ni ac na all y byd ei ddwyn oddi arnom! Cymaint yr hoffwn pe bai pawb yn gwybod ac yn deall realedd y Nadolig!

Eleni, gadewch i ni gadw Crist yng nghanol ein dathliadau, oherwydd mae ar y byd ei angen yn fwy nag erioed. Gall Ef ein rhwymo a’n lapio yng nghadachau iachawdwriaeth. Mewn byd iasol, oeraidd, mae’n rhoi i ni sicrwydd ei faddeuant, gobaith, heddwch, a’i lawenydd!

Gwyliwn rhag cael ein rhwymo a’n lapio mor dynn yn nathliadau’r Nadolig fel ein bod yn anghofio’r ‘un bach’ a ‘rwymwyd mewn dillad baban’. Mae’n awyddus ac yn eiddgar i ni ddadrwymo’r holl ras a ddaeth i ni gydag Ef o dragwyddoldeb!

Wrth i chi rwymo a lapio’ch anrhegion Nadolig i geraint a ffrindiau eleni, cofiwch ddadrwymo’i gariad anfeidrol a’i rannu’n rhadlon â phawb a fyn wrando! Boed i faddeuant, gobaith, heddwch a llawenydd yr ŵyl lenwi eich aelwydydd eleni.

E. Gwynne Parry
Cilgwri

Gweddi Nadolig

‘Y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef.’

Diolch i ti, Arglwydd, am lewyrchu dy oleuni yn ein byd trwy dy fab Iesu Grist. Cyffeswn ein bod yn rhy aml yn dewis anwybyddu’r goleuni a roddwyd i ni oherwydd bod yn well gennym y tywyllwch. Rho i ni, O Dduw, y gras o wir edifeirwch, fel y gallwn brofi dy faddeuant ac fel y cawn fyw yn fwy fel plant y goleuni.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd ... disgleiried dy oleuni.

‘Y mae’r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch’. Diolchwn i ti, O Dad, am y modd yr wyt ti’n treiddio i bob tristwch, gan gynnig gobaith i’r gwangalon, gorfoledd mewn galar a bywyd lle mae angau.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd ... disgleiried dy oleuni.

‘Ac nid yw’r tywyllwch wedi ei drechu ef’. Dros fywydau pob un sydd wedi goleuo Dy ffordd mewn mannau tywyll, pob un sydd wedi parhau’n ffyddlon drwy ddioddefant mawr ac erledigaeth, ac am y sicrwydd y bydd Dy wirionedd yn para byth, bendithiwn Di.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd ... disgleiried dy oleuni.

Cofiwn y rhai hynny sy’n gyfrifol am artaith, y rhai sy’n ei orchymyn, yn ei gefnogi neu sy’n ei anwybyddu. Llewyrcha i’w calonnau, O Arglwydd, fel y gwelant di yn wynebau eu dioddefwyr, ac y cânt y dewrder i droi o’u drygioni.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd ... disgleiried dy oleuni.

Gweddïwn ar ran pob mudiad sy’n gweithio er mwyn gwaredu’r byd o artaith ac sy’n rhoi cymorth i rai sydd wedi dioddef.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd ... disgleiried dy oleuni.

Amen.

Beti-Wyn James

Tlodi Dillad a Dillad Tlodi

‘Ydych chi’n meddwl y byddwch chi’n gallu eu helpu?’ Roedd llais Swyddog Llesiant yr ysgol i’w glywed yn torri ar ben arall y ffôn. Roedd yn gweithio mewn ysgol gynradd yn un o gymoedd Rhondda Cynon Taf ac roedd yn amlwg ei fod yn teimlo’r straen yr oedd yr argyfwng costau byw yn ei rhoi ar deuluoedd yr ysgol. ‘Does gan y teulu hwn bron ddim. Yr wythnos hon maen nhw wedi bod yn anfon eu mab naw oed i’r ysgol gydag esgidiau sydd wedi’u tapio at ei gilydd yn llythrennol. Allan nhw ddim fforddio prynu rhai newydd iddo.’

Roeddwn i’n siarad â’r Swyddog Llesiant oherwydd, yn ystod pandemig Covid-19, roedd yr eglwys roeddwn i’n gweinidogaethu iddi – Eglwys Carmel, Blaenllechau, Ferndale – wedi ymateb i’r pandemig tlodi trwy sefydlu banc dillad. Trowyd y capel yn warws a depo didoli. Y Sedd Fawr oedd lle’r oeddem yn didoli dillad ac yn prosesu archebion. Roedd pentyrrau uchel o focsys yn cynnwys dillad wedi’u didoli yn ôl rhyw a maint ar y seddau, a’r pulpud lle bûm yn pregethu ers ugain mlynedd bellach yn cael ei ddefnyddio i storio esgidiau. Ond, er gwaethaf maint yr ymgyrch yr oeddem wedi llwyddo i’w sefydlu, ein teimlad llethol oedd nad oedden ni ond yn crafu wyneb y broblem. Roedd tlodi’n erydu eneidiau llawer mwy o deuluoedd yn y cymoedd nag y gallem fod wedi’u cyrraedd.

Mae’r difrod a achosir gan dlodi, yn enwedig i blant, yn llawer mwy ei effaith na’r amddifadedd corfforol a welwn fel arfer. O dan yr wyneb, allan o olwg eraill,

mae cywilydd yn mynd o gwmpas ei waith dinistriol. Mae’r rhai sy’n cael eu magu mewn tlodi yn dwyn ei greithiau emosiynol am weddill eu hoes: cred nad ydyn nhw’n haeddu dim byd, neu nad oes yna le ar eu cyfer yn y byd hwn, er enghraifft.

Ein nod wrth sefydlu’r banc dillad oedd gweinidogaethu i’r cywilydd hwn drwy ddarparu dillad y byddem ni ein hunain yn falch o’u gwisgo – dillad fyddai’n annog eu gwisgwyr i gymryd eu lle yn y byd hwn, dillad sy’n sôn am ras Duw yn gorchfygu cywilydd.

Ers y dyddiau cynnar hynny mae’r banc dillad wedi gweinidogaethu i dros fil o bobl ac wedi dosbarthu dillad i’r rhai digartref, i’r rhai sydd wedi profi trais domestig a hefyd, ar gais ysbytai lleol, i gleifion

I’r cyflwr hwn o dlodi sy’n achosi cywilydd y daeth Gair Duw pan roddodd Mair enedigaeth i’w babi yn y stabl honno ym Methlehem. Yr oedd yn gyfoethog mewn mawredd, yn gyfoethog mewn gallu, yn gyfoethog mewn nerth, yn gyfoethog mewn gogoniant, eto, er ein mwyn ni, daeth yn dlawd (2 Corinthiaid 8:9). Daeth i fod yn anniogel, yn ddieithr, heb yr un geiniog, yn ddirmygedig, ac yn wrthodedig. Mae’r preseb, ar ôl tynnu’r holl drimins rhamantus yr ydym wedi eu cysylltu efo fo, a’i weld yn ei wir olau gwaradwyddus, yn ein hatgoffa o sut yr oedd Mab Duw yn gwisgo carpiau tlodi er mwyn i ni ddod yn gyfoethog.

Yr ydym wedi ein gwisgo yng nghyfoeth Crist Iesu. Onid yw’n amhosibl inni beidio â throi ein meddyliau at y rhai sy’n ymrafael â phob math o dlodi, boed hynny’n dlodi ysbrydol, tlodi perthnasau, yn dlodi seicolegol, neu’n dlodi ariannol? A sut na allwn gyfeirio ein tosturi at y rhai sy’n dioddef o dlodi dillad?

Ac felly, yn Henaduriaeth y De-ddwyrain, ein bwriad yw lledaenu’r gwaith hwn ar draws y rhanbarth a chrafu ychydig yn ddyfnach o dan wyneb y broblem hon. Mae un o’n hadeiladau gwag, Bethel yn Beaufort, eisoes wedi’i neilltuo i fod yn ganolfan newydd ac rydym ar hyn o bryd yn recriwtio rheolwr rhan-amser ar gyfer y gwaith hwn. Rydym hefyd yn anelu at sefydlu fersiwn dros dro o’r banciau dillad y gellir eu sefydlu mewn unrhyw leoliad ar draws de-ddwyrain Cymru. Mae hon yn dasg fawr ac rydym yn ymwybodol iawn o’n hangen am eich cymorth. Yn benodol, hoffem ichi weithio gyda ni i weddïo am y weledigaeth hon, y gallai ddod yn realiti a gweinidogaethu gras Duw i filoedd mwy o bobl yn ein cymoedd a’n dinasoedd.

Diolch byth, fe lwyddon ni i ymateb i gais taer Swyddog Llesiant yr ysgol arbennig yna. Fe wnaethon ni ddosbarthu pum bag mawr o ddillad oedd yn cynnwys dillad ar gyfer y ddau riant, gan gynnwys cotiau gaeaf trwchus, a dillad ar gyfer y tri phlentyn. Yn eistedd ar ben un o’r bagiau a anfonwyd gennym i’r ysgol y diwrnod hwnnw yr oedd dau bâr newydd sbon o sgidiau ymarfer a fyddai’n ffitio bachgen naw oed.

Owen Griffiths
Ferndale
Henaduriaeth Saesneg De-ddwyrain Cymru EBC

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 13
Drama'r Nadolig
Sul, 24 Rhagfyr

Gweddi
Diolch i ti, Roddwr Bywyd, am y rhodd o Waredwr i drigolion byd. Yn ein myfyrdod heddiw diolchwn am bob cyfrwng i adrodd y stori a dathlu rhyfeddod Bethlehem. Yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig, cymorth ni i weld Iesu fel canolbwynt ein haddoliad a deall mai'r un yw Crist y crud a Christ y groes. Amen.

Darlleniad: Mathew 1:18–2:12

Cyflwyniad
Mae stori'r Nadolig yn gyfarwydd i ganran sylweddol o blant y gwledydd Cristnogol, a hynny am iddi fod yn rhan mor amlwg i'w hadrodd. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif datblygodd yr ymwybyddiaeth o'r hanes a nodir gan Mathew a Luc mewn amrywiol ffyrdd. Nid felly y bu ar hyd y canrifoedd gan mai'r Pasg oedd y brif ŵyl eglwysig. Datblygwyd yr arfer o ddwyn cyfarchion i deulu a chyfeillion ar 25 Rhagfyr, ac estynnwyd hynny gyda dyfodiad y modd o argraffu cardiau. Bu'n ddyddiad i gadw cymanfa ganu mewn rhai ardaloedd ac eisteddfod mewn mannau eraill. Yn ystod yr ugeinfed ganrif yn arbennig, gwelodd masnachwyr eu cyfle i droi gŵyl y goleuni i fod yn ŵyl y gwariant gwirion. Yn ddiddorol, nid oes cyfeiriad yn Efengyl Marc at hanesion Bethlehem, ac nid yw Efengyl Ioan yn eu crybwyll chwaith.

Myfyrdod
Aeth yr hanes Beiblaidd ar goll ynghanol llu o draddodiadau eraill, ac mewn sawl cyflwyniad Nadolig sylwir bod Iesu ar yr un llwyfan â chymeriadau rhaglenni teledu neu storïau gwerinol o sawl gwlad. Daeth Siôn Corn yn amlycach a rhoddwyd Iesu gyda'i breseb i'r naill ochr. Bu'n ffasiwn gan siopau i drefnu cornel lle byddai'r cymeriad barfog a'i gôt goch yn estyn rhoddion i blant a fu'n aros yn amyneddgar er mwyn gweld ei ryfeddodau.

Fel rhan o'r ymateb i hyn, gwelodd Sally Humble-Jackson, gwraig ganol oed o gefndir Anglicanaidd yng Nghaerdydd, yn dda i gasglu ei ffrindiau ynghyd a cheisio lleoliad i gynnal 'Drama'r Geni'. Cyn cyfnod Covid, bu'n cyflwyno'r ddrama yn y Tabernacl, Caerdydd, ond erbyn heddiw mae'n defnyddio adeiladau'r ddwy eglwys Anglicanaidd yng nghanol y brifddinas, sef Dewi Sant a Sant Ioan y Bedyddiwr. Bu'r cyflwyniad cyntaf yn 2010 a gwahoddwyd ysgolion i drefnu cludiant i'w disgyblion i ddod i weld y ddrama. Oedolion oedd mwyafrif yr actorion, gydag ambell un yn dewis cymryd rhan o'u gwyliau blynyddol i fod yn rhan o'r cast. Roedd y sylwebaeth wedi ei recordio a meim oedd cyfrwng y cyflwyno. Defnyddiwyd sgiliau pypedwyr i ddangos rhan y bugeiliaid, ac roedd yr angel yn ymddangos mewn ffurfiau eraill. Nod y gweithgarwch oedd dweud y stori fel bod plant y ddinas yn cael cyfle i weld y darnau yn dod ynghyd. Nid efengyleiddio oedd y bwriad, a gwelwyd llu o bobl o grefyddau eraill yn dod â'u plant i weld a mwynhau'r ddrama.

Mae sawl ardal arall yng Nghymru yn arbrofi â'r cynllun, gan gynnwys Aberdâr, Pen-y-bont, Caerfyrddin a Chaernarfon. Byddai angen cyfalaf i greu'r set ar bob ardal, yn ogystal â phobl i actio a stiwardio, a digon o gyhoeddusrwydd i sicrhau cynulleidfaoedd. Amcangyfrifir bod dros 32,000 wedi gweld y cyflwyniad dros yr wyth mlynedd gyntaf yng Nghaerdydd, a gwerthfawrogir cydweithrediad nifer dda o eglwysi i sicrhau llwyddiant y fenter. Os ydych am drefnu cynnal digwyddiad tebyg yn eich ardal chi, bydd angen i griw ymroddedig ddod ynghyd a sgwrsio â Sally Humble Jackson. Mae'n bosibl, a byddwch yn helpu cenhedlaeth newydd o blant i ymgyfarwyddo â symlrwydd a rhyfeddod hanes geni Iesu o Nasareth.

Gweddi
O aed, O aed yr hyfryd wawr ar led,
goleued ddaear lydan!
Halelwia! Amen.

(Y Salmydd Cymreig, priodolir i David Charles; *Caneuon Ffydd* 49)

Cwestiynau i'w hystyried
1. Pam dybiwch chi na wnaeth Marc ac Ioan adrodd yr hanesion sydd yn y ddwy efengyl arall?
2. Pa ganran o blant a phobl ifanc eich bro sy'n gyfarwydd â ffeithiau syml yr hanes?
3. A aeth Iesu ar goll ynghanol y twrcis a'r tinsel, neu a yw teuluoedd heddiw heb sylweddoli mai Iesu'r preseb yw Iesu'r groes a'r bedd gwag?
4. Ai Duw neu doli sydd yng nghrud eich dathliadau chi?
5. Ai person neu rhith yw Duw i ganran sylweddol o'ch cydnabod?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 24 Rhagfyr am 7yh
Bydd Nia Roberts yn arwain dathliadau'r Nadolig o Eglwys San Silyn, Wrecsam. Ymhlith y gwesteion mae Cantorion Sirenian a'r unawdwyr Jessica Robinson, Trystan Llŷr Griffiths a Celyn Cartwright. A chawn wrando ar ddarlleniadau o Stori'r Geni a chydganu ein hoff garolau.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 24 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp
Carolau a darlleniadau i ddathlu'r Nadolig

Oedfa Radio Cymru
Sul, 24 Rhagfyr, am 12yp
Oedfa dan ofal Lois Adams, Caerdydd

Llun, 25 Rhagfyr, Dydd Nadolig, am 7yb ac 1yp
Oedfa dan arweiniad Alun Morton Thomas ac aelodau o'i eglwysi ym Môn

Oedfa Cenn@d

Genedigaeth Iesu

Daeth cyfnod y Nadolig yn agos unwaith eto, ac mae'n amser i ni lawenhau. Mae yna brysurdeb wrth inni chwilio am anrhegion i'r teulu a ffrindiau, y plant bach yn edrych ymlaen at ymweliad Siôn Corn a'i anrhegion, a chyfle inni ddod at ein gilydd i fwynhau, gan gofio am y rhai sydd ddim gyda ni ond gan drysori'r atgofion melys. Ynghanol hyn i gyd, hoffwn heddiw i ni gymryd egwyl a chofio am wir bwrpas y Nadolig, sef fod Duw wedi anfon ei unig-anedig Fab i'r byd er ein mwyn ni. Ac mae hyn yn dod â llawenydd i'n calonnau wrth gofio am y Baban bach mewn preseb ym Methlehem.

Emyn 441: 'Wele, cawsom y Meseia'

Darlleniad: Luc 2:1–7

"Pan oeddent yno, cyflawnwyd yr amser iddo esgor ac esgorodd ar ei mab cyntaf-anedig, a rhwymodd ef mewn dillad baban a'i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y llety" (Luc 2:4)

Genedigaeth Iesu

Mae pennod 2 yn Efengyl Luc yn dechrau drwy ein hatgoffa pam roedd Mair a Joseff wedi mynd i Fethlehem. Roedd Cesar Awgwstws wedi rhoi gorchymyn fod yn rhaid i bob teulu gofrestru yn ei dref ei hun, ac oherwydd ei fod yn perthyn i dŷ a theulu Dafydd, roedd angen i Joseff fynd i Fethlehem i wneud hynny. A dyma chi ddechrau ar daith a newidiodd y byd, ac a newidiodd ddynoliaeth. Roedd Cesar Awgwstws yn un o'r arweinyddion mwyaf pŵerus; maent yn dweud iddo ddod i Rufain fel bricsen ond ei fod wedi gadael fel marmor. Roedd Cesar wedi newid y byd nid yn unig drwy greu ffyrdd a byddin; roedd pobol yn meddwl mai duw ydoedd! Ond doedd Cesar ddim yn gwybod bod Mab y Duw byw yn dod, a'i fod yn dod mewn heddwch a chariad. Felly, gadewch i ni fynd ar daith i weld yr effaith gafodd plentyn bach wedi ei lapio mewn cadachau ar fywyd pawb a ddaeth ato.

Fe adawodd Iesu Grist ei orsedd yn y nefoedd, lle roedd yn cael ei glodfori gan yr angylion, a dod i'r byd i wynebu dynoliaeth. Meddyliwch am funud sut roedd hi yn y nefoedd: purdeb, heddwch, cariad, perffaith. Ac yn y byd roedd rhyfeloedd, casineb, dioddefaint a gwaeledd. Ond ynghanol hyn i gyd roedd Duw wedi gweld cariad, digon i anfon ei unig-anedig fab. Roedd wedi gweld Mair ac roedd am achub ac agor y ffordd i ni.

Mae Crist yn cael ei eni mewn stabl tlawd ynghanol anifeiliaid. Fel y datgelodd Crist, mae gan lwynog ffau ac mae gan adar nythod, ond doedd yna ddim lle i Fab y Dyn gael rhoi ei ben i orffwys. Wrth feddwl am hyn cawn ein hatgoffa bod Crist yn gwybod yn iawn beth oedd bod yn dlawd, yn ddigartref, yn unig. Felly, pan rydym yn teimlo fel hyn, mae'n rhaid i ni ein hatgoffa ein hunain am yr aberth fawr – nid yn unig y groes ond pan ddewisodd Crist ddod i'r byd oherwydd ei fod yn ein caru ni gymaint.

Fel mae hanes y cenhadon Dr Larry ac Addie Garman a aeth i Beriw dan nawdd Eglwys y Nasaread yn 1964 yn ei ddangos. Roedd yno lwythau oedd wedi bod yn rhyfela ers blynyddoedd. Flwyddyn cyn i Larry Garman a'i wraig fynd yno, doedd dim gobaith iddyn nhw ddod i unrhyw gytundeb. Ond doedd Larry ac Addie Garman ddim am roi i fyny. Fe ddalion nhw ati, ac erbyn iddyn nhw adael yn 2009, 45 mlynedd yn ddiweddarach, roedd 200 o eglwysi mewn tri dosbarth o enwad Eglwys y Nasaread wedi eu sefydlu ymysg llwythau'r Awajun a'r Huambises yn ardaloedd yr Amazon, a'r llwythau'n cydaddoli ac yn byw'n gytûn mewn brawdgarwch. (Remembering Addie Garman's life, legacy - Church of the Nazarene)

Darlleniad: Luc 2:8–20

Emyn 455: 'Yn nhawel wlad Jwdea dlos'

Down yn awr at y bugeiliaid liw nos. Rhaid cofio nad oedd y bugeiliaid yn bobl gyfoethog ac roedd pobol yn edrych i lawr arnynt. Ond dewisodd Duw anfon ei angylion atynt i gyhoeddi'r newydd da: "Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb."

Dyna i chi gyhoeddiad, yntê, i'r bugeiliaid: fod Brenin y byd wedi ei eni mewn preseb tlawd ac nid mewn palas. Roedd o fel roedden nhw – allan ynghanol eu praidd. Roedd yntau wedi dod i'r byd fel Bugail er mwyn ein tywys i fywyd tragwyddol. Mae'r neges yr un yn yr Efengylau i gyd.

Fe ddaeth Iesu i'r byd am ei fod yn ein caru ni. Dyna pam y daeth o'r nefoedd. Dyna pam y ganwyd ef mewn stabl, i unigrwydd a thlodi, yn ddigartref. Dyna pam yr aeth i'r groes. Fe ddaeth i'r byd er mwyn dod â ni yn agosach at Dduw ein creawdwr. Fe gododd bont rhyngom ni a Duw. Fe ddaeth i wasanaethu eraill ac i'n dysgu ni i fod o wasanaeth i eraill, gan garu eraill fel ni ein hunain. Daeth atoch chi a fi oherwydd ei fod yn ein caru gymaint. Felly, pan oeddem ynghanol anghyfiawnder, problemau, poen a phryder, fe ddaeth Iesu atom a'n cynnal â'i gariad.

Dwi am orffen drwy ddweud hanes plentyn bach oedd yn cymryd rhan mewn sioe Nadolig. Roedd wedi bod yn mynd dros ei rhan am wythnosau ac wedi dysgu'r caneuon i gyd. Roedd yr eneth fach yma'n edrych ymlaen at y noson er mwyn iddi gael cymryd rhan; er bod y rhan a gafodd yn un fach iawn, roedd hi'n foment fawr iddi hi. Felly, dyma ni yn y sioe Nadolig. Roedd yr eneth fach yn dod i mewn yn cario llythyren ac wrth i'r côr ganu 'Christmas Love' roedd pob plentyn yn codi ei lythyren. Felly, pan oeddent yn canu 'Christmas' roedd y llythyren 'C' yn cael ei chodi, ac yn y blaen. Yna, fe sylweddolodd y tad fod ei ferch yn dal y llythyren M y ffordd anghywir. Dechreuodd y plant a'r gynulleidfa chwerthin. Ond sefyll yno wnaeth yr eneth fach yn dal ei llythyren 'W'. Yna, fe ddechreuodd pawb sylweddoli pam roedd yr eneth fach yn dal y llythyren 'W' i fyny. Fe newidiodd y geiriau o 'Christmas Love' i 'Christ Was Love' – sydd yn hollol wir! A gwnaeth i'r tad sylweddoli mai dyna ydi gwir neges y Nadolig. Cariad yw Crist. Amen.

Nerys Griffiths
Gofalaeth Glannau'r Saint

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru